Cynulliad Cenedlaethol Cymru
National Assembly for Wales

# Comisiwn y Cynulliad
# Assembly Commission

**NAFWC 2014**
**Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd 18 Mawrth 2010**

**Dyddiad: 18 Mawrth 2010**
**Amser: 16:00**
**Lleoliad: Ystafell Gynadledda 4B**

## Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd 18 Mawrth 2010

**Presennol:**
**Llywydd, Cadeirydd**
**Lorraine Barrett AC (Llafur)**
**Peter Black AC (Democratiaid Rhyddfrydol)**
**William Graham AC (Ceidwadwyr )**
**Chris Franks AC (Plaid Cymru)**

**Swyddogion yn bresennol:**
**Claire Clancy, Prif Weithredwr a Chlerc**
**Adrian Crompton, Cyfarwyddwr Busnes y Cynulliad**
**Keith Bush, Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cyfreithiol**
**Connie Robertson, Pennaeth Ystadau a ThGC**
**Steven O'Donoghue, Pennaeth Adnoddau'r Cynulliad**
**Aled Eirug, Cynghorydd Cyfansoddiadol**
**Helen Finlayson, Ysgrifenyddiaeth**

**Cynghorwyr annibynnol:**
**Mair Barnes**

**Arsylwyr:**
**Dim**

**Eraill:**
**Dim**

1. Cyflwyniad

Datgan buddiannau
Nid oedd dim buddiannau i'w datgan.

Cofnodion y cyfarfod - 28 Ionawr 2010
Cytunwyd ar y cofnodion yn ffurfiol.

Materion yn deillio o gyfarfod 28 Ionawr 2010
Nid oedd dim materion yn deillio.

2. Y wybodaeth ddiweddaraf am Brosiect Cefnogi Aelodau'r Cynulliad
Cyflwynwyd yr ail bapur gan Adrian Crompton, a rhoddwyd y wybodaeth ddiweddaraf am ail gam gweithredu'r argymhellion, yn nodi'r opsiynau ar gyfer darpariaeth ariannol ar gyfer diogelwch a mynediad i'r anabl i swyddfeydd Aelodau, diwygiadau arfaethedig i'r Penderfyniad ar Gyflogau a Lwfansau, a'r cynnig, o 1 Ebrill 2010, bod y Prosiect Cefnogi Aelodau'r Cynulliad yn cael ei gynnwys yn Rhaglen y Pedwerydd Cynulliad.

Cytunodd y Comisiwn ar y Penderfyniad ar Gyflogau a Lwfansau 2010 a'r canllawiau sy'n gysylltiedig ag ef, yn amodol ar gael eglurhad o baragraff 10.2.2 ynghylch nwyddau traul (gweler isod). Cymeradwyodd y cynnig i ddarparu camau 3 a 4 Prosiect Cefnogi Aelodau'r Cynulliad drwy Raglen y Pedwerydd Cynulliad. Hefyd bu'r Comisiwn yn trafod y cynnig i ostwng y cyfyngiadau o £2000 o fewn paragraffau 10.3.1 a 10.4.1 yr OCA (darpariaeth ar gyfer diogelwch ac ar gyfer iechyd a diogelwch/mynediad i'r anabl i swyddfeydd Aelodau) i £1000 a chytunodd arno, a chytunodd y byddai'n briodol pe bai argymhelliad 85, ynghylch ffonau symudol, yn cael ei roi ar waith ar ôl etholiadau 2011.

Gofynnodd y Comisiwn bod y canllawiau sy'n mynd gyda'r Penderfyniad yn gwneud yn eglur bod y cyfeiriad at "cyfarpar swyddfa " ym mharagraff 10.2.2 (cyfarpar swyddfa i'w gofrestru ar restr a gaiff ei chadw gan y Tîm Cymorth Busnes i'r Aelodau) yn peidio cynnwys eitemau traul (fel cetris argraffu), fel nad oes yn rhaid cofnodi'r rhain hyd yn oed os yw eu cost yn fwy na'r cyfyngiad o £50.

3. Y wybodaeth ddiweddaraf am y Prosiect Rhwydwaith Unedig
Cyflwynwyd y trydydd papur gan Connie Robertson, a nododd hynt

y Prosiect Rhwydwaith Unedig, a chostau diwygiedig y prosiect yn fras.

Bu'r Comisiwn yn trafod y materion a nodwyd yn y papur a mynegodd ei anesmwythyd difrifol am y cynnydd yng nghostau'r gwaith a oedd i'w wneud gan Siemens o gymharu â'r amcangyfrifon gwreiddiol. Cytunodd y Comisiwn, o fwyafrif, ar barhad y prosiect, yn amodol ar y camau a gynigiwyd i reoli a gostwng costau ymhellach, a chytunwyd gan y mwyafrif bod cyllideb atodol yn cael ei hystyried ar gyfer 2010-11 os oes angen i dalu costau cynyddol y prosiect. Roedd William Graham a Chris Franks yn gwrthwynebu'r argymhellion.

4. Deddfwriaeth Cymru Arlein – adroddiad ar ei hynt
Keith Bush a gyflwynodd y pedwerydd papur, a nodai'r cynnydd a wnaed gan wefan Deddfwriaeth Cymru Arlein yn ôl amcanion y Comisiwn a'r problemau a brofwyd wrth ddenu arian o ffynonellau ychwanegol.

Nododd y Comisiwn gefnogaeth barhaus y cyhoedd ar gyfer amcanion y Comisiwn ar gyfer y wefan, a'r cynnydd a wnaed yn erbyn yr amcanion, er gwaethaf diffyg arian ychwanegol. Cadarnhaodd y Comisiwn ei ymrwymiad i ddarparu arian ar y lefel gyfredol, ond gofynnodd hefyd bod swyddogion yn ystyried y posibiliadau ar gyfer trefniadau wrth gefn ar gyfer cyflawni amcanion y Comisiwn yn y tymor hirach.

Cam i'w gymryd: Cynigion amgen i gael eu datblygu i ystyried darpariaeth wrth gefn i gyflawni amcanion y Comisiwn ar gyfer Deddfwriaeth Cymru Arlein yn y tymor hirach.

5. Pierhead - y defnydd ohono ar gyfer y dyfodol ac amseroedd agor
Cyflwynwyd y pumed papur gan Claire Clancy, a nododd y cynigion gan Ganolfan Llywodraethu Cymru i ddefnyddio'r Pierhead, ac amseroedd agor arfaethedig ystâd y Cynulliad.

Bu'r Comisiwn yn trafod cynigion Canolfan Llywodraethu Cymru, a chytunodd y dylai swyddogion gydweithio â'r Ganolfan i ddatblygu cynigion penodol ar gyfer defnyddio'r Pierhead, sydd i'w trafod yng nghyfarfod nesaf y Comisiwn.

Cytunodd y Comisiwn hefyd ar yr oriau agor arfaethedig ar gyfer ystâd y Cynulliad.

6. Fframwaith ar gyfer Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon Comisiwn y Cynulliad 2009-10
Cyflwynwyd papur rhif chwech gan Claire Clancy, a nododd y fframwaith arfaethedig ar gyfer yr Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon, a nododd ei fod yn debyg i fframwaith llwyddiannus y flwyddyn flaenorol.

Cytunodd y Comisiwn ar amserlen a fframwaith arfaethedig yr Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon 2009-10.

7. Adroddiad y Bwrdd Rheoli i'r Comisiwn
Ystyriodd y Comisiwn bapur rhif chwech, Adroddiad y Bwrdd Rheoli, a thrafododd y materion a ganlyn:

Penodiadau cyhoeddus
Nododd Claire Clancy fod dau benodiad cyhoeddus yn yr arfaeth – y Comisiynydd Safonau ac Archwilydd Cyffredinol Cymru – a rhoddodd y wybodaeth ddiweddaraf am y prosesau penodi.

Adroddiad ariannol
Nododd Steven O'Donoghue mai'r amcangyfrif ar gyfer tanwariant diwedd y flwyddyn oedd £0.9miliwn, ac amlinellodd y rhesymau dros hyn. Darperir bwletinau ariannol rheolaidd i'r Comisiynwyr.

8. Materion i'w nodi
Nododd y Comisiwn bapurau 8a-8f.